

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol De Eryri  
a gynhaliwyd ddydd Mawrth 20<sup>fed</sup> Mehefin am 5.45 yh  
Yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**Presennol – Aelodau:**

Mr Aled Thomas	Mr Eryl Jones Williams
Mrs Gaynor Davies	Mr Alun Edwards
Mr Huw Roberts	Mr Alun Evans
Mr David Coleman	Mr Delwyn Evans
Mr Geraint Rowlands	Mrs Janette Holmes
Mr Tim Faire	Cyng Dewi Owen
Cyng John Pughe Roberts	

**Swyddogion / Arsylwyr:**

Peter Rutherford (APCE)	David P Jones (APCE)
Rhian P Williams (APCE)	Adam Daniel (APCE)
Will Sandison (CNC)	Rhodri Parry (CNC)

Croesawodd PR bawb i'r cyfarfod heno a chyhoeddodd gan mai hwn oedd cyfarfod grŵp cyntaf y FfMLI hwn y byddai'n Cadeirio'r cyfarfod fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r FfMLI. Byddai'r broses o ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn digwydd yn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynodd PR rai o'r aelodau newydd a oedd yn bresennol.

1. **Ymddiheuriadau**

Mr Hedd Pugh	Mr Emlyn Roberts
Mrs Lesley Amison	Mr David Evans

2. **Datgan Buddiant**

Dim

3. **Cofnodion Blaenorol**

t7 Crybwyllodd PR fod dau air ar goll o baragraff ar dudalen 7 ynghylch y newidiadau i ffin afon yr AO yn Nhonfannau. Dylai hwn ddarllen i gynnwys y geiriau 'terfyn llanw' er mwyn osgoi dryswch, h.y. roedd maint ffin yr afon bellach yn is i lawr yr afon a lle'r oedd yn cwrdd â'r terfyn llanw newydd.

**Cymeradwywyd**

4. **Materion yn Codi**

i) **Strategaeth Hamdden Ddrafft APCE – Diweddariad**

Soniodd PR ei fod wedi bod yn trafod gyda rhai grwpiau arbenigol ar rai agweddau ar y datganiadau gweithgaredd o fewn y ddogfen, felly roedd yn gobeithio na fyddai gormod o anawsterau yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd yn rhaid i'r ddogfen gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yr wythnos hon. Yn dilyn eu hargymhellion, byddai'r ddogfen yn mynd trwy ymgynghoriad ffurfiol 6-wythnos a fyddai'n cynnwys aelodau'r

Fforwm Mynediad Lleol (er bod aelodau'r FfMLI eisoes wedi gweld drafft ac wedi derbyn rhai sylwadau diddorol yn anffurfiol gan rai unigolion).

Roedd angen llawer o newidiadau ar yr hen ddogfen i'w galluogi i adlewyrchu'r amcanion o fewn Cynllun Rheoli Eryri. Roedd llawer o newidiadau yn y mathau o weithgareddau a oedd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd PR yn meddwl bod y ddogfen newydd hon yn fwy eang ei chwmpas.

*Gofynnodd EJW pryd y bu'r Fforwm Mynediad Lleol yn trafod mynediad at ddŵr gyntaf.*

Dyweddodd PR iddo gael ei drafod ddiwethaf yn 2015. Er mai trwy drefniant, aethpwyd i'r afael â'r materion ar ran uchaf afon Conwy (Ysbyty Ifan – Padog – Rhydlanfair) yn 2013 a pharhaodd hyn i weithio'n dda. Roedd y model hwn yn defnyddio mynediadau a ffyrdd allan (allanfeydd) hysbys, a rhai gwelliannau seilwaith bach megis grisiau allan, mesuryddion lefel dŵr digonol ac arwyddion priodol. Roedd yn anffodus bod y mater hwn wedi'i ohirio'n gyffredinol gan LIC, ac nid oedd hyn yn foddhaol.

Ar y pryd comisiynodd y PC brosiect i nodi'r 10 mynediad / ffordd allan gorau (presennol) ar gyfer canŵod o fewn y PC. Roedd 9 yn yr ardal ddeheuol a dim ond 1 yn yr ardal ogleddol. O ystyried y diffyg arweiniad a deddfwriaeth gan LIC, roedd y rhain wedi'u gadael ar y silff, ond roedd PR yn obeithiol y byddai defnyddio model y PC yn golygu y gellid gweithredu rhai o'r rhain yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am drafodaethau gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill. Er mwyn chwalu unrhyw fythau bod canŵ-wyr angen mynediad dilyffethair i'r holl afonydd a nentydd ar unrhyw bwynt ar hyd y glannau, dywedwyd y byddai hyn yn anymarferol ac yn afresymol - roedd angen defnydd ffurfiol o'r mynediadau a'r ffyrdd allan presennol.

I gynorthwyo gyda'r broses hon ac i leddfu anawsterau, roedd Fforymau'r PC eisoes wedi argymhell (yn ystod ymgynghoriadau yn y gorffennol) y dylid rhoi llai o atebolrwydd i berchnogion tir am nodweddion dŵr h.y. afonydd, nentydd, camlesi, ffrydiau, gorlifannau, coredu, ategwaith, ffensys a stoc - tebyg i'r rhai sydd â nodweddion naturiol o dan CGHT ar gyfer tir mynediad. Credai fod hyn yn ymarferol pe gellid mynd i'r afael â'r mater atebolrwydd.

*Gofynnodd EJW beth oedd barn y Cymdeithasau Pysgota am fynediad i ddŵr.*

Dyweddodd PR fod llawer, fel perchnogion â hawliau glannau'r afon, yn gyffredinol yn gwrthwynebu'r gweithgaredd hwn ond pe byddai cytundebau'n cael eu cytuno yna roedd rhai yn ffafrio cyfyngiadau tymhorol a thrwyddedu. Fodd bynnag, gallai lefelau dŵr digonol negyddu'r mater tymhorol yn ei farn ef. Nid oedd y frawdoliaeth ganŵio yn meddwl dychwelyd i'r cytundebau gwirfoddol ar afonydd. Oni bai bod deddfwriaeth bendant, roedd yn anffodus ein bod wedi cyrraedd sefyllfa sy'n achosi penbleth.

## **ii) t5 Traphont Abermaw**

Cyhoeddodd PR ei fod wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn ddiweddar gan Network Rail ynghylch y bwriad i gau. Maent wedi cadarnhau y bydd y draphont yn cau ar y 31<sup>ain</sup> Awst tan y 24<sup>ain</sup> o Dachwedd ac yna tan y 3<sup>ydd</sup> o Ragfyr. Roedd diwedd Awst - dechrau Medi yn gynharach na'r llynedd a gallai arwain at fwy o anawsterau lleol. Byddai gwasanaethau bws amgen yn eu lle.

*Cadarnhaodd EJW y sefyllfa hon – er bod y grŵp wedi gofyn am rywfaifnt o fynediad dros yr hanner tymor ym mis Hydref, roedd NR wedi dweud nad oedd hyn yn bosibl. Roedd hefyd yn gysylltiedig â'r prosiect yr oeddent yn ei wneud ar ran yn Aberdyfi. Roedd rhywfaint o arwydd hefyd y gallai fod angen cau'r draphont y flwyddyn nesaf hefyd ond nid oedd hyn wedi'i gadarnhau.*

Mae datganiad Network Rail isod:

*“Er mwyn cadw pawb yn ddiogel bydd angen i ni gau'r llwybr troed ar draws y draphont rhwng dydd lau 31 Awst a dydd Gwener 24 Tachwedd, a hefyd rhwng y 25<sup>ain</sup> o Dachwedd a'r 3<sup>ydd</sup> o Ragfyr”.*

Sylweddolodd y byddai hyn yn anghyfleustra mawr i bawb dan sylw ond yn anffodus o ystyried maint y gwaith atgyweirio oedd ei angen, nid oedd modd ei osgoi. Rhybuddiodd hefyd y gallai rhai dyddiadau newid (fel y gwnaethant y llynedd) ond byddent yn monitro'r sefyllfa a byddai Wardeniaid y PC yn gosod arwyddion cynghori ar hyd Llwybr Mawddach i ddefnyddwyr.

## **ii ) Llwybr Llyn Gwernan – Diweddariad**

Dyweddodd AD yn anffodus roedd un rhan, - nad oedd yn Hawl Tramwy Cyhoeddus (HTC) nac yn dir mynediad, nad oedd yn cael ei roi ar gael gan dirfeddiannwr newydd a oedd yn golygu na ellid defnyddio'r llwybr yn ei gyfanrwydd. Roedd yn obeithiol y gellid dod i gytundeb ar rywbeth ynghylch hyn.

Ychwanegodd PR os na ellid dod i gytundeb efallai na fyddai'r rhan hon yn cael ei hail sefydlu heblaw am rannau oedd â hawliau statudol eraill.

## **5. Gohebiaeth**

- i)** Cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Ddiwygio Mynediad – Briffio hyd at ddiwedd 2022-23
- ii)** Diweddariad ar y Côt Cefn Gwlad a Hamdden Cyfrifol

*Y ddau bapur i'w trafod gyda'i gilydd.*

Dyweddodd PR wrth yr aelodau eu bod wedi derbyn y ddogfen hon yn ddiweddar gan CNC a oedd yn hunanesboniadol i raddau helaeth ac yn cynnwys Côt Cerdded Cŵn ychwanegol.

Nid oedd yn siŵr pa mor effeithiol y byddai hyn. Roedd consensws ar draws y sector y byddai hyrwyddo deunydd y Côt Cefn Gwlad yn gyson yn genedlaethol yn fwy effeithiol o ran lledaenu'r negeseuon hyn i'r cyhoedd – fel yr hen hysbysebion Aardvark a oedd yn llwyddiannus wrth ymdrin â materion fel cŵn a sbwriel.

Roedd hefyd yn anffodus bod Llywodraeth San Steffan yn ystod y dyddiau diwethaf wedi tynnu allan o'r Ddeddf Lles Anifeiliaid arfaethedig yn ystod cam y pwyllgor. Roedd un o'r themâu yn cynnwys cŵn yn poeni da byw a chŵn ar dennyn. Roedd yn ansicr beth fydd yn dilyn yn awr. Roedd Rob Taylor o'r Tîm Troseddau Gwledig gwreiddiol wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn a byddai PR yn gofyn iddo a allai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Datgelodd ystadegau RT fod 80% o'r

anifeiliaid oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau o boeni defaid wedi dianc o'u cartrefi. Roedd 70% o'r anifeiliaid hynny yn ymwneud â Huskies neu [fridiau tebyg](#).

Ychwanegodd PR fod hyn i gyd yn rhwystredig o ystyried yr holl ymdrechion a wnaed i gynnal gweithdai'r Grŵp Diwygio Mynediad (ARAG), ac nid oedd dim o unrhyw ddefnydd mawr wedi dod i'r amlwg.

*Holodd AE faint o erlyniadau llwyddiannus o berchnogion cŵn yn methu â chael eu cŵn "o dan reolaeth effeithiol" oedd wedi digwydd yn dilyn digwyddiadau o boeni stoc. Dyma oedd y diffiniad ar gyfer cŵn ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC). O ystyried nifer yr achosion, mae'n amlwg nad oedd hyn yn ataliad effeithiol.*

Dywedodd PR er gwybodaeth fod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn amrywio o ran cŵn. Ar HTC rhaid i bob ci fod o dan reolaeth effeithiol bob amser, ac ar dir mynediad CGHT mae'n ofynnol i gŵn fod ar dennyn rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf - er mwyn amddiffyn adar sy'n nythu ar y ddaear a stoc ifanc. Roedd y ddwy reol wahanol ar gyfer cŵn yn ddrwslyd ac yn ychwanegu at y broblem.

Ychwanegodd tra ei fod ar lwybr Llanberis yn ddiweddar ei fod wedi nodi bod cymaint ag un o bob pedwar o bobl neu grwpiau yn cynnwys ci. Roedd hyn yn arwyddocaol gan fod y llwybr yn cael ei ddefnyddio gan dros 220,000 o gerddwyr y flwyddyn ac roedd hyn yn achosi llawer o broblemau.

*Ychwanegodd AE ei bod yn ffaith fod gweithgareddau hamdden erbyn heddiw yn digwydd o fewn 'lle gwaith' ffermio, ac felly, roedd gwneud ymdrech i gysoni hyn yn anodd.*

## **6. Trefniadau Aelodaeth FfMLI 2023-2026**

Gofynnodd os oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb mewn bod yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd, yna byddai'n hapus i dderbyn eu hunan-enwebiadau. Yn dilyn hyn byddai'n anfon crynodebau o yrfa at aelodau er gwybodaeth a gallant nodi eu dewis erbyn y cyfarfod nesaf. Byddai e-bost atgoffa yn cael ei anfon yn fuan ar ôl y Fforwm Mynediad Lleol y de ymhen pythefnos.

Roedd yn ddefnyddiol, pan ofynnwyd i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol ymateb i ymgynghoriadau amrywiol, bod is-grŵp ar y cyd yn bodoli a oedd yn cynnwys y Cadeirydd ac un neu ddau o aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol, a oedd yn eistedd gyda'u cymheiriaid o'r Fforwm Mynediad Lleol deheuol a Fforwm Mynediad Lleol Arfon Dwyfor cyfagos i alluogi ymatebion cyson ac ar y cyd. Roedd y broses hon wedi gweithio'n dda yn y gorffennol a'r gobaith oedd y gallai barhau.

## **7. Cynnig Deddf Lles Anifeiliaid – Diweddariad**

Roedd yn anffodus ond roedd Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r Bil arfaethedig hwn er bod sawl rownd o'r camau pwyllgor wedi'u cynnal. Roedd hyn yn siomedig gan fod yna elfennau o fewn y cynigion a oedd yn ymwneud yn benodol â chŵn yn poeni da byw. Roedd yn ansicr beth oedd camau nesaf Llywodraeth San Steffan. Argymhellodd ein bod yn gofyn i Rob Taylor (cyn-aelod o'r Tîm Troseddau Gwledig), a oedd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor hwnnw, am ei farn a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf os oedd yn gallu bod yn bresennol.

*Dywedodd y Cyngorydd DO fod rhoi'r gorau i'r Bil arfaethedig hwn yn siomedig iawn o ystyried yr holl waith a wnaed gan gynifer, yn enwedig o ystyried y problemau yr oedd y gymuned ffermio yn eu hwynebu gyda chŵn a phoeni stoc yn digwydd bron bob wythnos. Barn yr Undebau Amaethwyr oedd y farn hon hefyd.*

*Ychwanegodd AE yr ymosodwyd ar un o'i ddefaid yn ddiweddar a'i fod yntau'n siomedig fod Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r Bil. Roedd yn ymwybodol bod CNC yn gweithio ar godau ond ychwanegodd na fyddai unrhyw waith gan seicolegwyr CNC ar y mater hwn yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran addysgu'r cyhoedd. Gweddill wedi'i sensro.*

Dywedodd PR, ar wahân i'r gymuned ffermio, fod swyddogion proffesiynol o sectorau gwaith amrywiol yng nghefn gwlad ar draws Cymru a Lloegr yn siomedig bod y Bil hwn wedi'i roi'r gorau iddi.

*Argymhellodd y Cyngorydd DO ein bod yn ysgrifennu at Liz S. Roberts i fynegi ein barn ar hyn.*

Argymhellodd PR ein bod yn clywed barn RT yn gyntaf ac yna'n ystyried ysgrifennu at yr Aelod Seneddol (AS) yn dilyn hynny.

## **Cytunwyd**

Byddai'n holi RT a oedd ar gael. Naill ai ar gyfer cyfarfod mis Medi neu gyfarfod mis Rhagfyr.

*Ychwanegodd HJ ei fod yn ffaith bod rhyw 10 o bobl wedi cael eu lladd gan gŵn yn 2022, a 5 hyd yn hyn eleni, oedd yn ystadegyn brawychus ac yn dangos tuedd gynyddol mewn ymddygiad ymosodol mewn rhai bridiau. Yn ei farn ef roedd angen i'r gyfraith yn ymwneud â chŵn fod yn fwy cadarn ac roedd angen i'r cyhoedd ddeall yn llawn y cyfrifoldeb o gael ci, yn enwedig pan fyddant allan yng nghefn gwlad.*

## **8. Diweddariad gan yr Adran Wardeniaid - Rhaglen waith rhan ddeheuol y PC.**

Cyflwynodd DPJ ei hun fel yr uwch Warden ar gyfer ardal ddeheuol y PC.

Dangosodd rai sleidiau. Roedd enghreifftiau o waith yn cynnwys gosod wyneb a gatiâu ar Lwybr Cynwch. Roedd y gwaith pitsio llwybr mynydd yn parhau ar Fynydd Moel (ger Cader Idris) ac roeddent yn disgwyl hedfan mwy o gerrig i mewn ar gyfer y rhannau nesaf.

Bu newidiadau staffio – penodwyd Bryn Davies yn Warden ar gyfer y Fawddach a'r arfordir. Penodwyd Simon Jones yn Warden ardal Llyn Tegid yn ddiweddar. Roeddent hefyd wedi penodi staff tymhorol tan ddiwedd mis Medi. Robin McNaught (tymhorol i Lyn Tegid) a Mark Williams ar sail tymhorol ar gyfer ardal Dolgellau.

Yn ogystal, crëwyd grŵp Wardeniaid Gwirfoddol a fyddai'n cerdded y llwybrau poblogaidd ar batrwm sifft. Y gobaith oedd y byddai'r grŵp yn ased defnyddiol iawn i'r Gwasanaeth Wardeinio.

Roeddent hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd (CG) ar adnewyddu hen ddodrefn, yn enwedig camfeydd gyda gathiau lle bo hynny'n ymarferol.

Roedd Llyn Tegid wedi bod yn brysur eto, ond roedd sbwriel yn broblem arbennig ym mhob man poblogaidd.

Crybwyllodd PR fod criw mawr o bobl a cherbydau wedi ymgynnull ers rhai wythnosau yn ardal Llyn Cynwch, a'u bod wedi achosi rhywfaint o annifyrrwch gan eu bod hefyd wedi defnyddio'r maes parcio.

*Dywedodd GR eu bod wedi bod ar ei dir a'u bod wedi bod ar y safle ers mis. Wedi dweud hynny, ni adawyd unrhyw sbwriel na gwastraff ac roeddent wedi glanhau'r safle'n llwyr cyn iddynt adael. Roeddent yn sicr yn wahanol i lawer o fathau eraill o ymwelwyr yr oeddent wedi'u profi (roeddent yn cael eu hadnabod fel y Rainbow Family UK) ac roeddent yn parchu'r amgylchedd.*

*Credir eu bod yn symud safle yn flynyddol a'r gobraith oedd na fyddent yn dychwelyd i Ddolgellau.*

Diolchodd PR i DPJ am ei ddiweddariad

## **9. Maes Tanio Traws – Estyniad arfaethedig CNC i'r cyfyngiad ffurfiol ar Adran 25 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT)**

Rhoddodd PR gefndir cryno i'r aelodau o'r mater hwn.

Roedd yr ardal dan sylw yn cynnwys tua 350ha o eiddo coetir CNC ac roedd wedi'i leoli uwchben Bronaber yn ardal Trawsfynydd. Roedd yr ardal hon, a adwaenir fel 'hen faes tanio Traws', wedi'i defnyddio ers 1906 ac roedd yn dal i gynnwys llawer iawn o hen arfau rhyfel wedi'u claddu. Mae rhai ohonynt yn codi i'r wyneb yn achlysurol ac o bosibl mewn cyflwr peryglus. Cafodd y safle ei ffensio a chodwyd arwyddion yno ar gyfer dibenion diogelwch y cyhoedd.

Cafodd y safle penodol hwn ei ddynodi (a'i fapio) trwy gamgymeriad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) (fel y'i enwyd ar y pryd) fel tir mynediad CGHT. Er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd bu'r safle'n destun Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fynediad CGHT y mae'n rhaid ei adnewyddu bob 5 mlynedd a'i gadarnhau gan y Fforwm Mynediad Lleol fel rhan o'r broses ymgynghori. Eithriad treigl yw'r unig fecanwaith y gellir ei ddefnyddio oherwydd unwaith y caiff tir ei ddynodi'n dir mynediad, mae am byth. O achos hynny, mae'n rhaid i'r landlord adnewyddu'r cais, sef CNC yn yr achos hwn.

*Dywedodd AE os gallai deddfwriaeth newydd fod ar y gweill, byddai'n syniad da cynnwys mecanweithiau i ymdrin ag ardaloedd fel hyn, h.y. y gallu i'w tynnu oddi ar y mapiau tir mynediad os ydynt yn peri perygl parhaus i'r cyhoedd.*

Atebodd PR fod AE wedi codi pwynt dilys iawn a bod y mater hwn wedi'i grybwyll yn ystod amrywiol drafodaethau gyda CNC ac yn ystod cyfarfodydd Grwpiau Diwygio Mynediad (GDM)<sup>1</sup>, ond y gallai hyn olygu newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Roedd

<sup>1</sup>GDM – Grwpiau Diwygio Mynediad a thrafodaethau dilynol.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/access-reform-advisory-group-final-advice-report.pdf>

yn gwneud synnwyr, pan oedd llain o dir mynediad yn berygl parhaus i'r cyhoedd (ar wahân i nodweddion naturiol) ac na ellid ymdrin ag ef mewn ffyrdd eraill, y dylai mecanweithiau fod ar gael i alluogi awdurdod mynediad i wneud cais ffurfiol i'w ddileu.

Dangosodd y map ardal a chyflwynodd WS i fynd â ni drwy'r cais CNC hwn.

Cyflwynodd WS ei hun fel un o Arweinwyr Tîm CNC. Ef oedd y swyddog a oedd yn gyfrifol am ddod â'r cais newydd hwn am Gyfyngiad Deddf CGHT i ymgynghoriad gerbron y Fforwm Mynediad Lleol a diolchodd i'r Fforwm Mynediad Lleol am y gwahoddiad i fynychu heno. Roedd y gorchymyn presennol yn dod i ben ym mis Awst - a wnaed o dan Adran 21 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (fel perygl i'r cyhoedd) ac roeddent yn meddwl y byddai'n ddoeth cyflwyno'r cais heno.

Dyweddodd wrth yr aelodau bod llythyrau hefyd wedi'u hanfon at yr holl ymgynghoreion gofynnol fel rhan o'r broses ymgynghori.

Byddai'r cyfnod gwahardd newydd yn ei le tan 2028.

Roedd hon yn broses ffurfiol a'r gobaith oedd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn cefnogi'r cais hwn.

*Soniodd AT ei fod (yn ei rôl yn y gorffennol gyda'r Comisiwn Coedwigaeth) wedi bod yn bresennol pan ddaethpwyd o hyd i rai arfau rhyfel ac y dinistriwyd hwynt, a bod y safle yn broblem barhaus a chyfyngiad ffurfiol oedd yr unig ffordd i ddelio â hyn. Er nad oes neb erioed wedi cael ei anafu.*

*Credai fod dau opsiwn i) gwneud yr ardal ar gael yna byddai'n rhaid cael gwared ar yr holl arfau rhyfel a fyddai'n achosi cost enfawr ac ni fyddai yna byth warant pendant bod y cyfan wedi cael ei waredu ii) bod yr ardal yn cael ei thynnu oddi ar y map fel yr amlinellwyd yn gynharach.*

*Roedd yn cytuno â sylwadau AE bod angen adolygu rheoliadau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ynghylch ardaloedd o'r fath, a bod angen sefydlu mecanwaith amgen ar gyfer unrhyw rai a oedd yn berygl parhaus i'r cyhoedd yn hytrach na bod rhaid i'r ymgeisydd fynd drwy'r broses hirwyntog hon bob 5 mlynedd.*

Dyweddodd WS ei bod yn ddoeth i CNC gymryd dull gweithredu o ymarfer egwyddor ragofalus ar gyfer y safle hwn yn hytrach na'i agor heb gyfyngiadau a bod yn gyfrifol am yr atebolrwydd posibl hwn. Roedd y costau amcangyfrifedig ar gyfer clirio'r safle yn gyfan gwbl yn golygu miliynau sylweddol o bunnoedd.

Ychwanegodd PR fod y PC, ar y cyd â'r Fforwm Mynediad Lleol, wedi cau ardal Waun Hir ryw 10 mlynedd yn ôl am resymau tebyg. Cliriwyd y safle hwn ar ddau achlysur gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac yna codwyd y cyfyngiad, a symudwyd yr arwyddion.

*Dyweddodd HJ y gallai ffin yr hen feysydd tanio amrywio ac efallai nad yw'n fanwl gywir.*

Dyweddodd PR eu bod wedi derbyn map gan yr Ystadau Amddiffyn / 'Defence Estates' ar y pryd a oedd yn dangos yr holl fomio a gofnodwyd a'r ardaloedd targed yn mynd ymhell yn ôl mewn hanes. Roedd hyn yn ymddangos yn gywir, ond roedd yn hysbys bod rhai arfau rhyfel anhysbys hefyd wedi'u claddu ar y safle.

*Dywedodd AE y dylem gefnogi cais CNC a'i gadw ar gau am 5 mlynedd arall. Atgoffodd yr aelodau fod yna lyfr wedi ei ysgrifennu am leoedd o'r fath – "Islands of Abandonment" a oedd yn amlygu sut y gall natur ddychwelyd pan gadewir llonydd iddi.*

Gofynnodd PR i'r aelodau gefnogi'r cynnig hwn gan AE ac eiliwyd gan EJW.

**Cytunwyd** drwy godi dwylo i gefnogi cyfyngiad CGHT CNC am gyfnod arall o 5 mlynedd. Byddai PR yn cofnodi hyn yn y cofnodion.

*Gofynnodd EJW a oedd yn anghyfreithlon i fynd i mewn i'r safle a symud eitemau.*

Dywedodd WS ei fod yn anghyfreithlon, a bod un person o ganolbarth Lloegr wedi'i erlyn.

Diolchodd PR i WS am gyflwyno'r eitem hon heno.

*Gofynnodd GL a oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i fonitro'r ardal.*

Dywedodd PR eu bod yn gwneud hyn o bryd i'w gilydd ond pe bai rhywbeth yn cael ei ganfod yna ni ddylid ymdrin ag ef ac y dylid adrodd i'r Heddlu yn ei gylch - byddent wedyn yn cysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac wedyn yn galw i mewn y tîm Gwaredu Bomiau.

## **10 . Newidiadau i'r toiledau anabl ym Morfa Mawddach**

Yn dilyn rhai ymholiadau gan DE ynghylch y ddarpariaeth hon, dangosodd PR rai sleidiau o'r bloc toiledau wedi'u hadnewyddu ym Morfa Mawddach gan gynnwys gwell hygrychedd ar gyfer pobl anabl. Roedd y bloc hwn hefyd i fod ar agor drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag yn dymhorol.

*Mynegodd DE ei ddiolch am y gwaith hwn a byddai'r ffaith y byddai'n agored trwy gydol y flwyddyn o fantais fawr i bobl anabl a llai abl sy'n defnyddio'r maes parcio.*

*Gofynnodd EJW a oedd hon yn rhaglen dreigl ar draws y PC ac a fyddai Benar yn cael ei gynnwys.*

Byddai PR yn holi'r swyddog perthnasol yn y PC.

## **11. Eitemau Agenda a Argymhellir ar gyfer y cyfarfod nesaf**

- i) Rob Taylor – diweddariad ar y pwyllgor Lles Anifeiliaid – os yw ar gael.
- ii) Diweddariad ar lwybr yr arfordir CG
- iii) Strategaeth Hamdden - diweddariad
- iv) Llwybr Traws Eryri CNC.
- v) Diweddariad Awyr Dywyll os yn bosibl

## **12. Unrhyw fater arall**

*i) Soniodd y Cynghorydd DO y gallai fod darpariaethau ychwanegol ar gyfer mynediad fel rhan o'r Cynlluniau Ffermydd Cynaliadwy newydd yn 2025 a oedd yn peri pryder i dirfeddianwyr. Gallai hyn achosi problemau ychwanegol yn y dyfodol pe bai hyn yn wir.*



*Ychwanegodd AE nad oedd dim o hyn yn glir ar hyn o bryd, ond roedd LIC wedi nodi y gallai rhyw fath o ddeddfwriaeth ddod i law. Roedd yn meddwl efallai y byddai angen ymestyn eu hamserlen ar gyfer unrhyw gynlluniau os mai dyma'r achos.*

Ychwanegodd PR fod dros 66% o'r PC eisoes ar gael fel tir mynediad a'i bod yn anodd gweld sut a pham y dylid ychwanegu mwy pan fo hyn wedi gweithio cystal ers 2003.

*ii )Gofynnodd y Cynghorydd DO a oedd CG yn bwriadu gosod pwyntiau gwybodaeth QR ar hyd Llwybr Arfordir Cymru Gyfan gan fod nifer o ymholiadau wedi bod yn y Ganolfan Groeso ac fe'i harweiniwyd i gredu mai dyna oedd y bwriad.*

Dywedodd PR nad oedd yn siŵr beth oedd y sefyllfa ynglŷn â hyn ond byddai'n holi Swyddog Arfordirol CG.

iii) Ymatebodd PR i ymholiad gan AE ar gyflwr pont Tonfannau. Roedd rhwd ar yr adrannau canllaw ac nid oedd yn edrych fel y dylai. Arweiniwyd ef i gredu bod CG yn gweithio i ddatrys hyn.

O ymweliad safle diweddar roedd hefyd yn amlwg bod sawl plac coffa wedi ymddangos ar y rheiliau mynediad sy'n arwain at y bont. Byddai'n anfon y lluniau hynny at CG. Roedd cofebion yn broblem ar draws y PC.

*iv) Gofynnodd JPR a oedd CG bellach wedi agor meysydd parcio cyfyngedig yn swyddogol ar gyfer cartrefi modur yn ne'r PC, ac a fyddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer hyn gan fod rhai tîrfeddianwyr wedi gofyn y cwestiwn. Gofynnodd hefyd a oedd pwyntiau gwefru mewn unrhyw feysydd parcio'r PC.*

Dywedodd PR nad oedd yn ymwybodol beth oedd y sefyllfa ond y byddai'n holi CG a'r Adran Eiddo o fewn y PC.

*v) Gofynnodd DE a oedd unrhyw gynnydd wedi bod ynghylch y mater o ddefnyddio ceffylau ar Lwybr Mawddach?*

Dywedodd PR na fu unrhyw gynnydd ers y trafodaethau cychwynol gyda'r trigolion hynny ger y giât ger George III. Nid oedd rhai yn gefnogol, ac nid oedd y rhesymau'n glir.

Roedd hyn yn siomedig o ystyried bod CNC yn awyddus i weld llwybr ceffylau o Lwybr Mawddach i Goed y Garth. Byddai'r gwaith rheoli yn seiliedig ar gyfyngiadau amser tymhorol tebyg i'r rhai ar gyfer beiciau mynydd ar Yr Wyddfa, ond gyda mynediad am ddim rhwng mis Medi a mis Mawrth pan ddisgynnodd nifer y defnyddwyr yn sylweddol ar Lwybr Mawddach - fel y nodwyd gan y data monitro ymwelwyr. Cwblhawyd y gwaith rheilen ddiogelwch a nodwyd gan yr ymgynghorydd. Byddent yn parhau i fynd ar drywydd hyn.

Mae'r rhan fwyaf o farchogion ceffylau wedi nodi mai dim ond yn ystod misoedd y gaeaf y mae angen iddynt ddefnyddio'r llwybr. Fodd bynnag, gall cais am HTC (h.y. llwybr march / ceffylau) fod yn opsiwn i rai marchogion fynd ar ei ôl os oeddent yn teimlo'n ddigon cryf ar y mater hwn. Nid oes gan Lwybr Mawddach statws swyddogol fel Hawl Trawmy (HT) ar hyn o bryd er ei fod yn rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 8. Yn syml, roedd ym mherchnogaeth y PC, ond mae'n bwysig nodi nad oedd yn berchen arno yn ei gyfanrwydd – mae'r trac o flaen y 4 eiddo ger Siôr III yn eiddo preifat a dyna ble mae'r anghytuno.

Gallai rheoli hyn ar hyd llinellau gwirfoddol fod yn ateb gwell i lwybr ceffylau ffurfiol lle na ellid gosod amodau pe bai defnyddwyr yn penderfynu peidio â chydweithredu.

*Gofynnodd EJW beth oedd y berthynas rhwng y PC a George III.*

Dywedodd PR fod ganddynt gytundeb gyda Bragdy Robinsons a bod y berthynas yn gadarnhaol iawn.

*Gofynnodd JH a oedd unrhyw amserlen ar gyfer hyn.*

Dywedodd PR nad oedd unrhyw amserlen, ond eu bod yn parhau i archwilio'r opsiynau. Er ei fod yn cytuno bod cael rhai amodau ymarferol yn gyfaddawd synhwyrol.

*Gofynnodd JPR a oedd defnydd a rennir yn broblem.*

Dywedodd PR fod pob llwybr ceffyl yn ddefnydd a rennir yn ddiofyn a'i fod yn digwydd ar draws y rhwydwaith yng Nghymru a Lloegr.

*vi) Gofynnodd HJ a oedd Triathlon Y Bala yn dal i fynd yn ei blaen.*

Cadarnhaodd DPJ fod hyn yn dal i fynd yn ei flaen ym mis Medi.

**vii)** Cyhoeddodd PR fod ganddo bellach gopi terfynol o'r 8 llwybr a hyrwyddir yn Ninas Mawddwy a grëwyd gan Gwmni Nod Glas – gyda chyfraniad sylweddol gan CG a'r PC. Pe bai modd trefnu'r cyfarfod nesaf yn Ninas Mawddwy yna efallai y byddai'n syniad cychwyn ychydig yn gynt er mwyn galluogi aelodau i gerdded rhan o un o'r llwybrau pe dymument.

Cynlluniwyd y llwybrau i ddechrau a gorffen yn y pentref a gellir cyflawni un y dydd – roedd hwn yn atyniad arwyddocaol i gerddwyr oedd yn ymweld â'r ardal.

A fyddai'r aelodau'n cefnogi dolen i'n gwefan PC ar gyfer y rhain.

## **Cytunwyd**

Soniodd DPJ y gofynnwyd i'r PC fonitro'r llwybrau hyn ac y gallai'r Wardeniaid gwirfoddol wneud hyn.

*Ychwanegodd JPR mai'r bwriad oedd cael pwyntiau gwybodaeth cod QR ar hyd yr holl llwybrau a fyddai'n gwneud ymweliad yn fwy diddorol i gerddwyr ac yn gyfle i bobl ddysgu mwy am yr ardal gan gynnwys ei hanes, rheolaeth tir, iaith, diwylliant, a bioamrywiaeth.*

**viii)** *Gofynnodd GR beth oedd y sefyllfa o ran Tomen Y Mur yn Nhrawsfynydd. Roedd yn amlwg fod y maes parcio bellach wedi ei gau a bod mynediad i'r safle bellach yn anodd .*

Dywedodd PR nad oedd cytundeb ar y safle ar hyn o bryd am wahanol resymau ac ni allai wneud sylw pellach heblaw dweud eu bod hwy a CADW yn awyddus i'w weld yn cael ei adfer.

## **13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Medi 19<sup>eg</sup> 2023** Dinas Mawddwy.

Diolchodd PR i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau heno.

